# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 8 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Polisïau i Gynorthwyo Datblygu Cymunedol

**C4 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y polisïau a gyflwynwyd i gynorthwyo datblygu cymunedol? (OAQ10118) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yw'r polisi diweddaraf a gyflwynwyd i gynorthwyo adfywio a datblygu cymunedol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch y cynigion i'w rhoi ar waith a daw hyn i ben ar 16 Mawrth. Disgwylir i'r rhaglen ddod ar-lein yn yr haf.

Mae rhaglenni eraill hefyd yn bodoli i gynorthwyo datblygu cymunedol megis rhaglen Pobl mewn Cymunedau, y rhaglen cymunedau cynaliadwy a'r gronfa adfywio leol. Yn ogystal â'r rhain, er na chawsant eu cyflwyno'n benodol i gynorthwyo adfywio cymunedol, mae rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 yn enghreifftiau o'r math o gronfeydd strwythurol a all hefyd gynorthwyo datblygu cymunedol. Ar ben hynny, mae un o'r tri thema yn rhaglen LEADER+ yn rhoi sylw i ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig, gyda ffocws arbennig ar ddatblygu cymunedol.

***Atebwyd cwestiynau 5 i 9 yn y Siambr.***

### Cytundebau Polisi rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol

**C10 Karen Sinclair:** Beth yw'r datblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer y cytundebau polisi rhwng yr holl awdurdodau lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ10114) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Effaith y Setliad Llywodraeth Leol ar Lefel Treth y Cyngor yng Nghymru

**C11 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y setliad llywodraeth leol ar lefel treth y cyngor yng Nghymru? (OAQ10108)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn OAQ10109, a atebais yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

### Uned Allgáu Cymdeithasol

**C12 Helen Mary Jones:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau â'r uned allgáu cymdeithasol ynghylch pa mor berthnasol yw ymchwil yr uned i Gymru? (OAQ10142)

**Edwina Hart**: Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â'm cydweithwyr yn San Steffan gyda golwg ar strategaethau'r DU a sut maent yn berthnasol neu'n effeithio ar Gymru. Yr wyf wedi mynychu

cyfarfodydd Rhwydwaith Gweinidogion y DU ar Allgáu Cymdeithasol a Chydbwyllgor y Gweinidogion ar Dlodi ac yr wyf yn cadw mewn cysylltiad â'r uned allgáu cymdeithasol drwy'r llwybrau hyn. Mae swyddogion o uned adfywio cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhannu gwybodaeth bob ychydig o fisoedd gydag uned dieithrwch cymdeithasol Swyddfa'r Cabinet.

**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

**C13 David Lloyd:** A fydd y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn mynd i'r afael ag anghenion y cymunedau perthnasol? (OAQ10166)

**Edwina Hart:** Cynhelir ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf hyd 16 Mawrth 2001. Un o'r materion pwysig a godir yn y ddogfen yw cymunedau perthnasol. Yr ydym wedi gwahodd sylwadau penodol ynghylch a oes cymunedau perthnasol, neu rai sydd ag angen arbennig, yn deilwng o ymchwiliad a/neu gefnogaeth y tu hwnt i'r ddarpariaeth a gynigir yn rhaglenni a chynlluniau presennol y Cynulliad Cenedlaethol. Byddaf yn edrych ar y mater hwn yn fanwl pan gaiff yr ymatebion i'r ail bapur eu hystyried.

**Tai Cyngor mewn Ardaloedd Trefol**

**C14 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosrannu tai cyngor mewn ardaloedd trefol? (OAQ10140)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn awyddus i gynorthwyo awdurdodau lleol i wella'r dewis ar gyfer ymgeiswyr, ac i ddatblygu systemau dyrannu sydd yn ymateb i flaenoriaethau ymgeiswyr yn ogystal ag anghenion. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi cod arweiniad diwygiedig dan Ran VI a VII Deddf Tai 1996 yn ddiweddarach eleni. Fel a nodwyd yn 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru', bwriadaf sefydlu bwrdd profi syniadau i ddatblygu polisi'r dyfodol yn y maes hwn.

**Prosiectau Adfywio Cymunedol**

**C15 Pauline Jarman:** Sut mae'r Gweinidog yn mynd ati i sicrhau y caiff yr holl brosiectau adfywio cymunedol eu gwerthuso'n effeithiol? (OAQ10145)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi nifer o brosiectau adfywio cymunedol dan amryw o raglenni. Caiff pob un o'r rhain eu monitro a'u gwerthuso. Er enghraifft, gyda'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau, cynhelir cyfarfodydd monitro bob dau fis gyda chydlynwyr datblygu'r prosiect. Yn ogystal â hynny, penodwyd *Cambridge Consultants Limited* i gynnal gwerthusiad llawn o'r rhaglen.

**Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru Wledig**

**C16 Dafydd Wigley:** Pa gamau mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd i fesur allgáu cymdeithasol yng Nghymru wledig? (OAQ10141) [W]

**Edwina Hart:** Mae mynegrif amddifadedd lluosog Cymru, a gyhoeddwyd fis Awst diwethaf, yn enwi'r etholaethau yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru lle ceir yr amddifadedd mwyaf, a hynny mewn modd y gellir eu cymharu'n deg. Mae'r mynegrif hwn, sydd yn gynnyrch menter ar y cyd rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru, yn gwneud llawer mwy na'r ymdrechion cynt i gydnabod y dimensiwn gwledig sydd i amddifadedd. Serch hynny, cynllunnir mwy o waith ar y mynegrif er mwyn gweld pa welliannau pellach y gellir eu gwneud i'r fethodoleg, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael â phryderon cymunedau cefn gwlad.

**Arian ar Gyfer y Rhaglenni Adfywio Cymunedau yn y Sector Gwirfoddol**

**C17 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffynonellau arian ar gyfer y rhaglenni adfywio cymunedau yn y sector gwirfoddol? (OAQ10143)

**Edwina Hart:** Gall y sector gwirfoddol wneud bid i nifer o raglenni adfywio cymunedol y Cynulliad Cenedlaethol. Dan raglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, yr ydym yn rhoi cyfle i'r sector gwirfoddol, mewn partneriaeth ag eraill, fanteisio ar nawdd penodol ar gyfer y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt mewn cynlluniau gweithredu lleol. Dyma'r grant penodol ar gyfer Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer y tair blynedd nesaf:

| 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|
| £20.054 miliwn* | £28.854 miliwn | £33.854 miliwn |

* mae hyn yn cynnwys tua £2 filiwn ar gyfer y rhaglen Pobl mewn Cymunedau a rhaglenni cymunedau cynaliadwy.

## Lleihau Digartrefedd yng Nghymru

**C18 Delyth Evans:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i leihau digartrefedd yng Nghymru? (OAQ10135)

**Edwina Hart:** Yn 2000-01, yn ogystal â'r rhaglen cysgu allan dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996, neilltuodd y Cynulliad ddyraniad untro o £3.6 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i ddatblygu atebion strategol cynaliadwy i'r broblem o bobl yn cysgu allan, a delio gyda'r problemau sydd yn ymwneud â digartrefedd a thai mewn aml-breswyliaeth.

Penderfynodd y Cynulliad hefyd, ar 27 Chwefror 2001, ymestyn categorïau pobl ddigartref y credir y dylid rhoi blaenoriaeth llety iddynt. Maent bellach yn cynnwys:

- person sydd yn gadael gofal neu berson sydd mewn risg penodol o gael rhywun yn manteisio arnynt yn rhywiol neu'n ariannol, sydd yn18 oed neu'n hŷn ond dan 21 oed;
- person 16 neu 17 oed;
- person sydd yn dianc rhag trais yn y cartref neu fygythiad o drais yn y cartref;
- person sydd yn ddigartref ar ôl gadael y lluoedd arfog;
- cyn garcharor sydd heb lety i ddychwelyd iddo ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa;

Cydnabyddir yn gyffredinol mai'r categorïau ychwanegol hyn yw'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o fod yn ddigartref a daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Mawrth 2001.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi sefydlu Comisiwn Digartrefedd a fydd yn cynghori'r Cynulliad ar:

a) Cyflawni'r amcanion yn 'Gwellcymru.com', i 'sicrhau bod llai na 500 o deuluoedd digartref yn byw mewn llety dros dro (erbyn 2003), 'delio â phroblem cysgu allan' a chael 'gwell mynediad i wasnanaethau iechyd i bobl sydd yn cysgu allan a'r digartref'.

b) Gweithredu argymhellion adroddiad y Cynulliad 'Cysgu Allan yng Nghymru' yn ogystal ag argymhellion grwpiau gorchwyl y strategaeth dai sydd yn ymwneud â digartrefedd a chysgu allan;

c) Cyflwyno strategaethau digartrefedd lleol ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru;

d) Gosod targedau a chanlyniadau;

dd) Mesur digartrefedd a chysgu allan a chynghori'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perthynas â chyfrif nifer y bobl sydd yn cysgu allan yng Nghymru ar noson cyfrifiad 2001;

e) Yr opsiynau ar gyfer nawdd tymor hir ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â 'Supporting People—Preventing Homelessness'.

**Prosiectau Pobl Mewn Cymunedau**

**C19 Alun Pugh:** A fydd pobl sydd yn cymryd rhan mewn prosiectau Pobl mewn Cymunedau felly hefyd yn gymwys yn syth ar gyfer Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ10153)

**Edwina Hart**: Nid wyf wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y mater hwn eto. Bydd fy mhenderfyniad yn dibynnu ar yr amserlen ar gyfer prosiectau presennol Pobl mewn Cymunedau a chynnwys cynlluniau gweithredu lleol a gaiff eu datblygu ar gyfer ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

**Setliad Llywodraeth Leol (grantiau trosiannol)**

**C20 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y grant trosiannol mae rhai awdurdodau lleol wedi derbyn o dan y setliad llywodraeth leol? (OAQ10139) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

**C21 Karen Sinclair:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau ymagwedd gyffredin at adfywio cymunedau difreintiedig rhwng Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd? (OAQ10113) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Papur Gwyn)**

**C22 Janet Ryder:** A fydd papur gwyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 yng Nghymru'n ymgorffori egwyddorion ar ymddygiad aelodau yr awdurdodau perthnasol? (OAQ10136) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Lefel Treth y Cyngor yng Nghymru**

**C23 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel treth y cyngor yng Nghymru? (OAQ10115) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mentrau a Arweinir yn y Gymuned**

**C24 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fentrau a arweinir yn y gymuned y mae hi wedi bod yn rhan ohonynt? (OAQ10117)

**Edwina Hart:** Bydd yr uned adfywio cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol newydd, a sefydlais i, yn gysylltiedig â'r holl fentrau a arweinir gan y gymuned sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Cynnydd yn y Rhent Canllaw (Effaith ar Bowys)**

**C25 Cynog Dafis:** Sut y bydd y cynnydd yn y rhent canllaw a gynigir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn effeithio ar Bowys? (OAQ10149) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mesur Allgáu Cymdeithasol mewn Ardaloedd Trefol**

**C26 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl tai wrth fesur allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd trefol? (OAQ10150) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Rhent Canllaw a Gynigir ar Gyfer 2001/2002**

**C27 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhent canllaw a gynigir ar gyfer 2001-02 yng Nghymru? (OAQ10138)

**Edwina Hart:** Cyhoeddwyd y cynnydd mewn rhent canllaw cymorthdaliadau'r cyfrif refeniw tai ar gyfer 2001-02 ar 19 Ionawr 2001. Cyfartaledd y cynnydd yw 4.5 y cant mewn rhenti canllaw ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r cynnydd mewn rhenti canllaw wedi cael eu dosbarthu yn unol â fformwla y cytunwyd arni gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dilynwyd amserlen a oedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r un a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Estynnwyd gwahoddiad ym mis Tachwedd 2000 i'r Pwyllgor dros Lywodraeth Leol a Thai roi ei safbwyntiau ar y cynnig i ymgynghori ar gynnydd cyfartalog o 4.5 y cant yn rhent canllaw cymorthdaliadau'r cyfrif refeniw tai yn 2001-02. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid rhoi blaenoriaeth i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer rheolaeth a gwaith cynnal a chadw, yn hytrach na lleihau lefel y cynnydd mewn rhenti canllaw. Ystyriwyd y farn honno wrth osod y lefelau cynnydd.

### Pridiannu o Fewn y Setliad Refeniw Llywodraeth Leol

**C28 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o bridiannu o fewn y setliad refeniw llywodraeth leol? (OAQ10137) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisïau Cynghorau Lleol i'r Rhai Dros 60 Oed

**C29 Glyn Davies:** Sut y bydd yn Gweinidog yn sicrhau bod polisïau cynghorau lleol yn adlewyrchu'n llawn anghenion y rhai sydd dros 60 oed? (OAQ10185)

**Edwina Hart**: Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi y datblygir strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf. Bydd cynrychiolwyr llywodraeth leol yn cael eu cynnwys ar gr^wp llywio'r strategaeth a bydd ei gylch gorchwyl yn ymwneud â holl agweddau cyfrifoldeb llywodraeth leol.

Eisoes, bydd cytundebau polisi rhwng awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys targedau sydd yn rhoi sylw i'r amcan y dylai pobl hŷn gael byw mewn cysur a chydag urddas yn eu cartrefi eu hunain, lle bynnag y bo'n bosibl, drwy ddarparu cefnogaeth sydd hefyd yn cydnabod rôl a dymuniadau gofalwyr. Mae arweiniad drafft y Cynulliad Cenedlaethol ar ddatblygu strategaethau cymunedol a'r arweiniad presennol ar Werth Gorau yn nodi'r angen i gynnwys pobl hŷn a dynodi eu hanghenion penodol.

### Pwerau Cynghorau Lleol

**C30 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y pwerau a'r cyfleoedd sydd gan gynghorau lleol ar hyn o bryd i helpu pobl sydd yn byw mewn pentrefi bach gwledig i ddod o hyd i le i fyw fel eu bod felly'n aros yn eu cymuned? (OAQ10121) [R]

**Edwina Hart**: Ers amser, mae awdurdodau wedi gallu comisiynu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu tai â rhent fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig a helpu pobl leol i brynu eiddo gan ddefnyddio ein cynllun darparu ecwiti i brynu tai. Er mwyn gwneud y cynllun yn fwy agored i bobl, yr wyf wedi cynyddu'r benthyciad ecwiti mwyaf posib mewn ardaloedd gwledig o 30 y cant i 50 y cant ac wedi neilltuo £1.5 miliwn ychwanegol a fydd ar gael ar gyfer 2001-02. Yr wyf hefyd yn ymgynghori ag awdurdodau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch y rhwystrau sydd yn bodoli ar hyn o bryd o ran darparu mwy o dai â rhent fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Diogelwch Gorsaf Bŵer yr Wylfa

**C6 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch diogelwch gorsaf bŵer yr Wylfa? (OAQ10182)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Nid yw gorsaf b^wer yr Wylfa wedi cynhyrchu trydan er mis Ebrill 2000 pan welwyd fod craciau yn y gwaith weldio. Dim ond os yw'r Arolygwyr Sefydliadau Niwclear yn fodlon ei fod yn ddiogel gwneud hynny y caiff ei roi ar waith unwaith eto.

### Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**C7 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru? (OAQ10195)

**Sue Essex:** Fel y dywedais ar fy ymweliadau niferus, mae noddwyr yr Ardd Fotaneg Genedlaethol wedi cyflawni camp anhygoel. Yr wyf yn talu teyrnged i nifer fawr yr ymwelwyr, y cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl o'r ardd ledled y DU a thu hwnt, y ffordd yr aethant ati i godi proffil yr ardal leol a gorllewin Cymru a'i heffaith uniongyrchol ar yr economi leol. Yr wyf yn falch bod y Swyddfa Gymreig wedi gallu cefnogi'r prosiect drwy ddarparu cyffordd newydd ar yr A48, bod y Swyddfa Gymreig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu swm sylweddol o gefnogaeth gyhoeddus drwy Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a bod yr ardd wedi cael cefnogaeth gref gan ffynonellau Ewropeaidd.

### Twf Traffig yng Nghymru

**C8 Peter Black:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud gwaith ymchwil i dwf traffig yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf ers derbyn cynlluniau trafnidiaeth lleol y cynghorau lleol?(OAQ10163) [R]

**Sue Essex:** Cynhaliwyd asesiad o'r holl gynlluniau trafnidiaeth leol a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ym mis Awst 2000. Yr oedd hyn yn cynnwys ystyried yr adroddiadau a baratowyd gan awdurdodau lleol dan Ddeddf Lleihau Traffig Ffyrdd 1997, a oedd yn ystyried effaith twf traffig yn eu hardaloedd hwy.

Bydd rhaid gwneud mwy o waith gydag awdurdodau lleol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r effaith a gaiff twf traffig mewn ardaloedd penodol, a'r mesurau a fabwysiadwyd er mwyn lliniaru'r sefyllfa drwy gyfrwng shifft moddol a mesurau eraill.

### Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

**C9 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfrifoldebau Cyngor Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas ag ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru? (OAQ10133) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adnoddau)

**C10 Dafydd Wigley:** Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i i roi'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith yng Nghymru? (OAQ10209)

**Sue Essex**: Mae cyllideb y Cynulliad yn darparu ar gyfer gweithredu darpariaethau allweddol y Ddeddf hon yng Nghymru.

Ar gyfer 2001-02, mae hyn yn cynnwys £1.1 miliwn ychwanegol ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru, tua £360,000 ar gyfer y tri pharc cenedlaethol a £2.4 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol.

Bydd hyn yn golygu y gellir parhau â'r gwaith o baratoi mapiau mynediad, sefydlu fforymau mynediad lleol, cynhyrchu arweiniad a gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr a pherchnogion tir, gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy a chyflwyno mesurau gwell i amddiffyn bywyd gwyllt a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

Mae dyraniadau'r gyllideb a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer y mudiadau hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth i fynd â'r gwaith hwn rhagddo.

**Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn 2002**

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod Cymru'n cyfrannu at Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn 2002? (OAQ10193)

**Sue Essex:** Byddwn yn sicrhau hyn drwy ymgynghori â buddianwyr yng Nghymru, drwy ddatblygu ymarfer da mewn cynaliadwyedd y gellid ei ailadrodd mewn maes arall a thrwy adlewyrchu hyn yn ein cyfraniad i baratoadau Llywodraeth y DU.

**Ffermydd Gwynt ym Mhentrefoelas a Thir Mostyn/Foel Goch**

**C12 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chyfarfodydd diweddaraf â chynrychiolwyr y parciau cenedlaethol a phobl leol ynghylch ffermydd gwynt ym Mhentrefoelas a Thir Mostyn/Foel Goch? (OAQ10172)

**Sue Essex:** Bydd un o bwyllgorau penderfyniadau cynllunio'r Cynulliad yn penderfynu ar y ceisiadau cynllunio hyn. Byddai'n anaddas i mi gwrdd ag unrhyw bartïon sydd â diddordeb, i drafod y cynigion. Yr wyf wedi dechrau adolygiad o'r arweiniad cynllunio yr ydym yn ei ddarparu i awdurdodau lleol, a bydd Canllawiau Cynllunio (Cymru) Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy yn cael ei ailddrafftio a'i roi allan ar gyfer ymgynghori erbyn yr haf. Cynhelir adolygiad o'r arweiniad gan grŵp ymgynghorol technegol sydd yn cynnwys cynrychiolwyr grwpiau amgylcheddol a diwydiannol, a fydd yn sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal mewn ffordd gynhwysol.

**Rhedeg Gwasanaethau Rheilffyrdd yn Effeithiol yng Nghymru**

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch rhedeg gwasanaethau rheilffyrdd yn effeithiol yng Nghymru? (OAQ10203)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch rhedeg gwasanaethau rheilffyrdd yn effeithiol yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wyf i a'm swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a Swyddfa'r Rheoleiddiwr Rheilffyrdd ynghylch sut mae'r gwasanaethau'n rhedeg yng Nghymru ar hyn o bryd, yn ogystal â ffurf masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn y dyfodol. Byddaf hefyd yn cwrdd â Steve Marshall, Prif Weithredwr Railtrack, y mis nesaf a byddaf yn trafod gydag ef sut y bydd yn sicrhau bod yr isadeiledd yn cael ei ddatblygu a'i gynnal a'i gadw'n effeithlon yng Nghymru.

**Datblygu Cynaliadwy (Polisïau Iechyd)**

**C14 David Lloyd:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisïau iechyd yng Nghymru? (OAQ10213)

**Sue Essex**: Mater i fy nghydweithwraig, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yw hwn yn bennaf, ac yr wyf yn cydweithio'n agos â hi. Fodd bynnag, gwn fod cynaliadwyedd yn cael ei amlygu fel un o'r ysgogwyr ar gyfer gweithredu yn 'Gwella iechyd yng Nghymru: Cynllun ar gyfer yr NHS gyda'i bartneriaid' a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Awgrymais y dylai'r Pwyllgor dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drafod cynllun gweithredu a dangosyddion datblygu cynaliadwy.

**Lonydd Beiciau Mewn Trefi a Dinasoedd**

**C15 Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol i annog datblygiad lonydd beiciau cydnabyddedig mewn trefi a dinasoedd? (OAQ10171)

**Sue Essex:** Yn fy holl drafodaethau gydag awdurdodau lleol, yr wyf yn eu hannog i fabwysiadu agwedd integredig tuag at ddarparu cyfleusterau trafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella'r isadeiledd seiclo mewn trefi a dinasoedd.

**Mastiau Cyfathrebu Symudol**

**C16 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i reoli datblygiad mastiau cyfathrebu symudol? (OAQ10177)

**Sue Essex:** Yr ydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch cwmpas a manylion y ddeddfwriaeth arfaethedig sydd yn llywodraethu codi mastiau cyfathrebu, ynghyd â chyngor ac arweiniad drafft cysylltiedig. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 5 Ionawr 2001 ac ystyriwn y cynigion yng ngoleuni'r holl ymatebion a gafwyd.

**Lleihau Llygredd Amaethyddol yng Nghymru**

**C17 Elin Jones:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu lleihau llygredd amaethyddol yng Nghymru? (OAQ10201) ***Tynnwyd yn ôl***.

**Y Drefn ar gyfer Ceisiadau Cynllunio**

**C18 Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu mwy o ddealltwriaeth o'r drefn ar gyfer ceisiadau cynllunio ymhlith aelodau'r cyhoedd? (OAQ10180)

**Sue Essex:** Yn ddiweddar, cyhoeddais bolisi cynllunio drafft i Gymru er mwyn i'r cyhoedd ymgynghori yn ei gylch. Mae'r ddogfen honno'n diweddaru ac yn egluro'r polisi cynllunio cenedlaethol, ac mae'n gosod egwyddorion gweithredu'r system gynllunio.

Awdurdodau cynllunio lleol sydd yn delio â'r mwyafrif o geisiadau cynllunio. Mae llyfrynnau arweiniad, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn egluro'r broses o wneud cais cynllunio a'r drefn apelio ar gyfer deiliaid a busnesau, ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd yr awdurdodau cynllunio lleol. Caiff y llyfrynnau eu hadolygu a byddant yn cael eu diwygio, gan ychwanegu atynt pan fo angen, er enghraifft mae 'A Farmer's Guide to the Planning System' yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad hefyd i egluro, a gwahodd sylwadau, ar drefn y Cynulliad ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn.

**Dyfodol Pwyllgorau Rhag Llifogydd**

**C19 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol pwyllgorau diogelu rhag llifogydd yng Nghymru? (OAQ10129) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith Gorsaf Bŵer yr Wylfa ar yr Amgylchedd**

**C20 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith gorsaf bŵer yr Wylfa ar yr amgylchedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol? (OAQ10131)

**Sue Essex**: Aeth Asiantaeth Amgylchedd Cymru ati i adolygu effaith amgylcheddol gorsaf bŵer yr Wylfa fel rhan o swyddogaethau'r Asiantaeth dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993. Yn benodol, mae'r

asiantaeth yn gwneud penderfyniadau awdurdodi ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol o'r Wylfa a gorsafoedd pŵer eraill Magnox, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd yr asiantaeth yr haf diwethaf.

Mae'r asiantaeth yn rheoleiddio holl ollyngiadau ymbelydrol yr Wylfa i'r amgylchedd, a rhai gollyngiadau nad ydynt yn ymbelydrol. Rhaid i'r gollyngiadau fod o fewn cyfyngiadau, a gosodir y rhain fel bod lefelau'r llygryddion a geir yn yr amgylchedd yn bodloni safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Mae'r asiantaeth hefyd wedi ystyried y niwed a wneir i'r amgylchedd ar safleoedd y mae'r Wylfa'n dibynnu arnynt am ei gyflenwad o danwydd niwclear ac ailbrosesu'r tanwydd a ddefnyddiwyd. Nid yw'r asiantaeth wedi gwneud penderfyniad ynghylch cais yr Wylfa hyd yma.

Mae'r awdurdod drafft yn cynnig cyfyngiadau sydd yn is na'r cyfyngiadau presennol ar gyfer y rhan fwyaf o ollyngiadau, a dim cynnydd.

Cynhelir y broses fonitro amgylcheddol i ddarganfod ymbelydredd gan weithredwyr yr Wylfa, Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb gan y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Cyhoeddir canlyniadau'r broses fonitro hon. Er enghraifft, cofnododd MAFF ym 1998 mai 10 microsiefert y flwyddyn oedd y dos i aelodau'r cyhoedd a oedd fwyaf agored i ollyngiadau'r Wylfa. Gellir cymharu hyn gyda'r dos cyfartalog i gyhoedd y DU o ymbelydredd cefndir, sef 2,200 microsiefert y flwyddyn, neu'r cyfyngiad dos statudol ar gyfer aelodau'r cyhoedd o 1,000 microsiefert y flwyddyn o ymbelydredd ffug, heb gynnwys ymbelydredd meddygol. Mae'r canlyniadau'n cefnogi'r casgliad mai dim ond effaith fach a gaiff yr Wylfa ar yr amgylchedd, a dylai rheolaeth barhaus Asiantaeth yr Amgylchedd o'r safle sicrhau bod yr effaith hon yn parhau'n isel neu hyd yn oed yn lleihau.

### Targedau Ailgylchu y Strategaeth Wastraff

**C21 Janet Ryder:** Sut y mae'r Gweinidog am sicrhau y caiff y targedau ailgylchu a nodir yn y strategaeth wastraff eu diwallu? (OAQ10198) ***Tynnwyd yn ôl***.

### Tocynnau Di-dâl ar Fysiau Lleol

**C22 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu tocynnau di-dâl ar fysiau lleol yng Nghymru? (OAQ10162)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod tocynnau consesiwn di-dâl ar gael i bensiynwyr a phobl anabl o fis Ebrill 2001 ymlaen, a fydd yn eu galluogi i deithio ar docynnau bysiau lleol gydag o leiaf 50 y cant o ostyngiad ar y prisiau. O fis Ebrill 2002 ymlaen, bydd gan bensiynwyr a phobl anabl hawl i deithio ar fysiau am ddim. Mae'r Cynulliad wedi croesawu'r cyhoeddiad diweddar a gafwyd gan Lywodraeth y DU y bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i sicrhau y bydd gan fenywod a dynion hawl gyfartal i'r consesiynau hyn pan fyddant yn 60 oed.

Mae'r Cynulliad yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau er mwyn sicrhau bod y tocynnau di-dâl a'r teithiau am ddim yn cael eu gweithredu'n ddidrafferth ledled Cymru.

### Tomen Trecatti, Dowlais

**C23 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Tomen Trecatti, Dowlais, gan dalu sylw arbennig i les amgylcheddol trigolion lleol? (OAQ10158)

**Sue Essex**: Yr wyf yn cydnabod ac yn deall pryderon pobl leol ynghylch safle tirlenwi Trecatti. Mae'n bwysig fod y safle'n cael ei reoleiddio er mwyn amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd. Asiantaeth yr Amgylchedd sydd yn gyfrifol am y gwaith rheoleiddio, tra bo gan Gyngor Sirol Bwrdeistref Merthyr Tudful ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag unrhyw niwsans a allai godi. Yr wyf arddeall bod yr Asiantaeth yn cymryd camau i ddelio â phroblemau aroglau ar y safle a'i bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor

ynghylch unrhyw ddatblygiadau. Dylai pobl leol sydd â phryderon ynghylch gweithgareddau yn Nhrecatti eu trafod gyda'r asiantaeth a'r cyngor, fel y bo'n briodol.

Yn ogystal â hyn, mae Awdurdod Iechyd Bro Taf, sydd yn gyfrifol am fonitro iechyd y boblogaeth leol, yn cydweithio'n agos â'r asiantaeth a'r cyngor i sicrhau agwedd gydlynol tuag at faterion amgylcheddol a iechyd, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn ymwneud â safleoedd tirlenwi.

**Diogelwch yng Ngorsaf Bŵer yr Wylfa**

**C24 Mick Bates:** A yw'r Gweinidog wedi bod mewn cysylltiad â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu'r Arolygwyr Sefydliadau Niwclear ynghylch y problemau sydd i'w cael ar hyn o bryd o safbwynt diogelwch yng ngorsaf bŵer Wylfa? (OAQ10170)

**Sue Essex**: Mae'r Arolygwyr Sefydliadau Niwclear yn rhan o Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â'r ddau yn rheolaidd ac yn aml. Cynhaliwyd y cyfarfod ffurfiol diwethaf yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Tachwedd 2000 a chafwyd sesiwn briffio ar y sefyllfa bresennol yn yr Wylfa.

**Cynllunio Trefol yn Ne Cymru**

**C25 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllunio trefol yn Ne Cymru? (OAQ10126) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Bysiau Ysgol Melyn**

**C26 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu bysiau ysgol melyn yng Nghymru? (OAQ10128)

**Sue Essex:** Rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog ganiatâd i FirstGroup ccc fwrw ymlaen â chynlluniau peilot i ddefnyddio bysiau ysgol melyn steil Americanaidd yn y DU. Cyfrifoldeb FirstGroup yw trafod a gweithredu cynlluniau gydag awdurdodau lleol sydd â diddordeb. Yr wyf yn ymwybodol fod FirstGroup wedi cwrdd â nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddwn yn cadw golwg ar y cynlluniau peilot gyda diddordeb.

**Datblygu Cynaliadwy (Y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon)**

**C27 Jocelyn Davies:** Sut mae'r Gweinidog am sicrhau bod ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy yn cael ei adlewyrchu ym mholisïau'r celfyddydau, diwylliant a chwaraeon? (OAQ10212) ***Tynnwyd yn ôl***.

**Rhoi'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith yng Nghymru**

C28 **Dafydd Wigley:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch rhoi'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith yng Nghymru? (OAQ10197) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Bysiau Llawr Isel ar gyfer Pobl Anabl yn Sir Gaerfyrddin**

**C29 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno bysiau llawr isel i'w defnyddio gan bobl anabl yn Sir Gaerfyrddin? (OAQ10179) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Papur Ymgynghori ar Ddatblygu Mastiau Telathrebu**

**C30 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ganfyddiadau'r papur ymgynghori ar ddatblygu mastiau telathrebu? (OAQ10165) ***Tynnwyd yn ôl***.